

24/06/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Braf yw gweld y bydd bron i 500 o ddisgyblion yn dychwelyd i'r ysgol wythnos nesaf a diolch i chi fel rhieni am eich cefnogaeth. Rydym yn edrych ymlaen at groesawu eich plentyn / plant yn ôl ar y diwrnod priodol wythnos nesaf. Ffocws y diwrnodau bydd i sicrhau diogelwch, i gefnogi lles a dysgu eich plentyn. Os nad ydych wedi cwblhau'r holiadur dychwelyd, plis ewch ati i'w llenwi nawr. Ni fyddwn yn gallu derbyn plant lle nad yw'r rhieni wedi llenwi'r holiadur dychwelyd. Cysylltwch gyda ni os oes anhawster llenwi'r holiadur.

Fel y nodwyd ar ein safwe ddoe, mae Awdurdod Lleol Abertawe wedi penderfynu mai 3 wythnos y bydd ysgolion yn agor, yn hytrach na'r 4 a gyhoeddwyd yn lle cyntaf. Hoffwn nodi bod holl staff Bryn Tawe yn hollol ymrwymedig i weithio'r pedair wythnos, ond rydym yn cefnogi penderfyniad yr ALL.

Rydym wedi **paratoi cytundeb lechyd a Diogelwch y bydd rhaid i bob rhiant ei lofnodi yn ddigidol** cyn bod eu plentyn / plant yn gallu mynychu'r ysgol wythnos nesaf. Gweler y manylion ar gyfer y [cytundeb yma](#). Mae'r cytundeb yn cyfeirio'n benodol at:

1. Gyfrifoldebau rhieni yn sicrhau nad yw disgybl yn mynychu sydd wedi dangos unrhyw symptomau dros yr 14 diwrnod diwethaf;
2. Y protocol o ynysu os bydd disgybl yn dangos symptomau tra yn yr ysgol;
3. Disgwyliadau a goblygiadau clir i ddisgyblion sydd yn barhaus neu yn fwriadol yn gwrthod dilyn rheolau pellhau cymdeithasol a hylendid. Os bydd eich plentyn yn gwrthod dilyn y canllawiau hyn yn gyson neu yn fwriadol, bydd disgwyl i chi ddod i'w gasglu ar unwaith.

Un agwedd gyffrous o'r cyfnod yma yw'r cyfle i ddatblygu ac ymestyn medrau dysgu annibynnol ein disgyblion. Mae gennym gynlluniau pendant ar gyfer datblygu medrau dysgu cyfunol eich plentyn dros y tair wythnos er mwyn eu paratoi ar gyfer y flwyddyn academiaidd newydd ym mis Medi. Er mwyn cyflawni hyn:

1. Mae cyfle i bob disgybl **ddod â dyfais eu hunain** i'r ysgol er mwyn cefnogi eu dysgu. Mae ein polisi 'dod a'ch dyfais eich hunain' yn y cytundeb lechyd a Diogelwch i chi. Byddwn yn darparu mynediad i'r we i ddisgyblion sydd yn dod a'u dyfais eu hunain.
2. Os yw eich plentyn wedi benthylg dyfais ysgol, disgwylw ei fod yn dod â'r ddyfais gyda nhw ar y diwrnodau maent yn mynychu. **Ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i rannu eu dyfais, personol neu ysgol, gyda disgyblion eraill am resymau iechyd a diogelwch.**
3. Byddwn yn ffrydio gwersi o un ystafell i'r llall yn yr ysgol ac o bosib i ddisgyblion sydd adref ac sy'n methu mynychu'r ysgol. Yn ogystal, byddwn yn recordio rhannau o wersi gydag esboniadau a chyfarwyddiadau fel bod mynediad gan eich plentyn i'r wers ar ôl gadael yr ysgol. Mae'r polisiâu perthnasol yn y cytundeb lechyd a Diogelwch i bob rhiant eu darllen a chytuno gyda nhw ai peidio. Fel y nodwyd uchod, rhaid i bob rhiant gwblhau'r cytundeb cyn i'ch plentyn ddychwelyd.
4. Fel rhan o'r fwydlen dysgu gyfunol, bydd angen offer addas i wneud gwaith ysgol yn ysgrifenedig, gan gynnwys offer Mathemateg ar eich plentyn. Cyfrifoldeb pob rhiant fydd i sicrhau bod yr offer addas gan eich plentyn.

CLUDIANT YSGOL:

- Byddwn yn hysbysu pob rhiant yn cadarnhau bod lle i'w plentyn ar y bws.



Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: yggy.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWR
MEWN POBL

Aur



- Bydd rhestr o ba ddisgyblion fydd yn cael eu codi ar ba arhosfan gan y gyrrwr.
- Bydd angen i bob disgybl ddangos ei bas bws.
- Ni fydd disgybl, sydd heb wneud cais a heb dderbyn cadarnhad gan yr ysgol, yn derbyn lle ar gludiant ysgol.
- Byddwn yn rhannu canllawiau teithio ar y bysys ysgol, fydd yn cynnwys camau i'w cymryd i sicrhau pellhau cymdeithasol. Ni fydd caniatâd gan ddisgyblion i newid sedd ar y bws.
- Mae'n bwysig bod rhieni yn darllen y rhain ac yn sicrhau bod eu plentyn yn dilyn y cyfarwyddiadau yma.

Rydym wedi cynhyrchu fideo byr yn arddangos rhai o'r trefniadau iechyd a diogelwch sydd yn eu lle i ddiogelu eich plentyn, ei gyfoedion a staff yr ysgol. Maent yn cynnwys:

- Pob disgybl yn dod i mewn drwy'r brif giât (bydd y fynedfa arferol drwy'r ffreutur ar gau).
- Pawb yn dod i mewn i'r adeilad drwy'r fynedfa yn y 'bloc gwyddoniaeth' ac yn mynd i **olchi eu dwylo yn syth ar ôl cyrraedd yn y labordai**. Bydd athrawon yn eu cyfeirio at naill ai Lab 1, 2, 3 neu 4, ble mae yna lle i 6 disgybl ar y tro.
- Fe welwch arwyddion cyson yn arwain disgyblion yn glir ar hyd y **llwybrau cerdded un ffordd sydd yn eu lle ar hyd y coridorau a'r grisiau**.
- Yn ogystal, fe welwch y **marciau cyson ar y llawr a phosteri ar y welydd yn atgoffa disgyblion i gadw eu pellter cymdeithasol** ar bob adeg a sut i **gynnal hylendid personol da**.
- Cewch fynediad i **ystafelloedd lle na fydd mwy na 10-12 disgybl** (yn ddibynnol ar faint yr ystafell).

Rydym wedi diweddarau'r ddogfen 'Trefniadau ymarferol dyddiol' ar ein safwe sydd yn cynnwys gwybodaeth bwysig am ([cliciwch yma](#)):

1. Amserlen mynychu fesul blwyddyn;
2. Amserau'r dydd;
3. Cludiant;
4. Gollwng a chasglu eich plant o'r ysgol;
5. Mynediad i'r ysgol
6. Amserlen pynciau
7. Ystafelloedd a grwpiau dysgu
8. Egwyl a chinio
9. Gwisg ysgol;
10. Dyfeisiau digidol ac offer ysgol;
11. Tai bach

Yn ystod y cyfnod yma, ni fydd caniatâd i rieni ddod i'r ysgol heb apwyntiad. Cysylltwch gyda ni yn y ffyrdd arferol, gan ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

Os oes cwestiwn pellach gennyh, cysylltwch gyda ni yn yr ysgol.

Cofion cynnes,





Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwrysydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600

Ebost: vgg.bryntawe@swansea-edunet.gov.uk
www.bryntawe.swansea.sch.uk

Pennaeth : Mr Simon Davies



BUDDSODDWYR
MEWN POBL

Aur